



Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar y Cyd

**Adroddiad Monitro Blynyddol a
Data Cydraddoldeb**

Mehefin 2016

Cadw De Cymru'n Ddiogel

Cynnwys

Rhagair	2
Cyflwyniad	3
Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus	3
A. Proffil Heddlu De Cymru a'i gymunedau	4
B. Ein Hamcanion Cydraddoldeb 2015-2018	6
Data Cydraddoldeb	13
1. Trosedd Casineb	15
2. Stopio a Chwilio	19
3. Hygyrchedd	23
4. Anghenion Amrywiol yn y Ddalfa	24
5. Trais yn erbyn Menywod a Merched	27
6. Gweithlu Cynrychioliadol	45
7. Gwybodaeth Arall am Gydraddoldeb	87
Dd. Cysylltiadau ac Adborth	97

Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn fformatau amgen ar gais:

Ffôn: 01656-655555 (estyniad 70123)

E-bost: hr.helpdesk@south-wales.pnn.police.uk

Mae'n flwyddyn ers cyflwyno ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar y Cyd ar gyfer Heddlu De Cymru. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn ein chwech amcan cydraddoldeb. Mae'r amcanion hefyd wedi'u hymgorffori'n gadarn iawn yn yr heddlu a Thîm y Comisiynydd, yn sgil sefydlu strwythur cofnodi cydraddoldeb sy'n blaenoriaethu gwaith ar y Cynllun ac yn sicrhau bod pob adran berthnasol yn gyfrifol am eu cynnydd. Codwyd ymwybyddiaeth o'r Cynllun ym mhob rhan o'r heddlu, gyda chysiau hyfforddiant amrywiol yn amlygu'r angen i bawb ddeall ei berthnasedd.

Yn fyr, mae ein llwyddiant mewn perthynas â'r chwe amcan yn cynnwys: cynnydd yn nifer y troseddau casineb y rhoddir gwybod amdanynt, datblygu dulliau craffu ar brosesau stopio a chwilio a chyfranogiad cymunedol, cydnabyddiaeth ehangach o anghenion amrywiol yn y ddalfa a'r ffordd orau o'u cefnogi, sefydlu is-grŵp Hygyrchedd i wella ein hygyrchedd i'n cymunedau amrywiol, cynnydd yn nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod a merched y rhoddir gwybod amdanynt, a llawer o waith i annog mwy o amrywiaeth ymysg ein gweithlu. Ceir rhagor o fanylion ar yr holl waith hwn yn yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno llawer o ddata i ddangos sut rydym yn gweithio tuag at ein Dyletswyddau Cydraddoldeb. Rydym yn awyddus i fod mor dryloyw â phosibl, ac rydym yn croesawu'r ffaith bod y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi bob blwyddyn er mwyn dangos cymhlethdodau ein gwaith a pha mor bwysig ydyw i ddangos ein hymrwymiad i gydraddoldeb.

Nid ydym yn llaesu dwylo. Cynllun tair blynedd yw'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar y Cyd a byddwn yn datblygu ein camau gweithredu ymhellach dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau dymunol. Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol yn hollbwysig i Heddlu De Cymru a byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r arweinyddiaeth a'r oruchwyliaeth sy'n ofynnol i gyflawni cynnydd gwirioneddol.

Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru

Peter Vaughan QPM
Prif Gwnstabl

Cyflwyniad

Mae hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yn ganolog i waith Heddlu De Cymru. Mae'r Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ymrwymedig ar y cyd i sicrhau, wrth ddarparu ein gwasanaethau plismona, ein bod yn ymrwymedig i wneud popeth o fewn ein gallu er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ac yn bodloni disgwyliadau'r nifer fawr o gymunedau amrywiol yn ein hardal.

Ein cenhadaeth yw 'Cadw De Cymru'n Ddiogel' a'n gweledigaeth ar gyfer Heddlu De Cymru yw 'sicrhau mai ni yw'r gorau am ddeall ac ymateb i anghenion ein cymunedau'. Gwyddom na ellir gwneud hyn heb flaenoriaethu cydraddoldeb ac amrywiaeth a gweithio i gyflawni canlyniadau gwirioneddol.

Rydym yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud bob amser er mwyn i bobl yn Ne Cymru allu byw yn rhydd o wahaniaethu, aflonyddu, anghydraddoldeb ac anfantais. Yr amcanion yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar y Cyd yw ein blaenoriaethau presennol i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r her hon yn barhaus.

Hefyd, mae Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu ar gyfer Heddlu De Cymru yn nodi blaenoriaethau strategol allweddol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl. Mae'r Cynllun yn cynnwys nifer o ymrwymadau clir er mwyn datblygu cydraddoldeb i bobl sy'n byw yn ein cymunedau ac sy'n gweithio i Heddlu De Cymru. Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn fel y bydd yn dod yn rhan o'n gwasanaeth bob dydd.

Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Dyletswyddau Penodol Deddf Cydraddoldeb 2010

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (rheoliadau'r Dyletswyddau Penodol yn y DU) mae'n ofynnol i ni gyhoeddi gwybodaeth i ddangos sut rydym yn cydymffurfio â'r dyletswyddau i wneud y canlynol:

- a) dileu gwahaniaethu ac aflonyddu
- b) datblygu cyfle cyfartal
- c) meithrin cysylltiadau da rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio nodweddion gwarchodedig fel a ganlyn:

- Oedran
- Anabledd
- Rhyw
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas neu bartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd neu famolaeth
- Hil
- Crefydd neu Gred
- Cyfeiriadedd rhywiol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd yn flynyddol ar gynnydd yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb. Felly, mae'r adroddiad hwn yn amlinellu cynnydd yn erbyn y chwe amcan cydraddoldeb yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar y Cyd, ac yn darparu amrywiaeth o ddata sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb er mwyn cefnogi'r amcanion yn ogystal â'r gwaith arall a wnawn ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

ADRAN 1

A. Proffil Heddlu De Cymru a'i gymunedau

Rydym yn darparu gwasanaeth 24 awr, bob diwrnod o'r flwyddyn i sicrhau ein bod bob amser yn hygyrch ac yn gallu darparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion ein cymunedau.

Mae ein hardal blismona yn pontio ffiniau saith awdurdod unedol, sef Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Abertawe, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd Port Talbot a Bro Morgannwg. Mae'r ardal blismona wedi'i rhannu'n bedair Uned Reoli Sylfaenol sy'n rheoli plismona ar lefel leol ac mae'n cynnwys 42% o boblogaeth Cymru.

O fewn ein hardal blismona sy'n cynnwys 1,283,651 o drigolion¹, mae 49.1% yn nodi eu bod yn ddynion a 50.9% yn nodi eu bod yn fenywod. Yn ogystal â'r 1,283,651 o drigolion, rydym yn cydnabod bod yr ardal blismona'n cynnwys nifer fawr o fyfyrwyr Prifysgol, tua 100,430² yn ôl amcangyfrifon, yn chânt eu cynnwys yn nata Cyfrifiad 2011. Mae De Cymru hefyd yn denu sawl miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, a Chanolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd yw'r atyniad twristiaeth mwyaf poblogaidd yng Nghymru.

Mae data Cyfrifiad 2011 yn dangos bod dosbarthiad oedran y boblogaeth yn Ne Cymru yn gymharol gyfartal, gyda 29.9% yn cynrychioli'r grŵp oedran o dan 25, 45.8% yn cynrychioli'r grŵp oedran 25-59 a 24.3% yn cynrychioli'r grŵp oedran 60+. Nododd 18.4% fod ganddynt rywfaent o Gymraeg llafar neu ysgrifenedig. Mae 22.9% o'r trigolion o fewn yr ardal blismona yn nodi bod ganddynt salwch hirdymor sy'n effeithio ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Yn Ne Cymru, mae 4.6% o'r boblogaeth yn bobl economaidd weithgar³ sy'n ddi-waith, sy'n arwydd o lefel yr amddifadedd.

Yn Ne Cymru, mae 6.6% o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn perthyn i leiafrif ethnig, gyda 15.3% o'r boblogaeth yng Nghaerdydd a 6% yn Abertawe yn nodi hynny.

Mae'r gyfran uchaf o drigolion (53.8%) yn nodi eu bod yn Gristnogion a 34.9% yn nodi nad oes ganddynt unrhyw grefydd. Mae nifer fach yn nodi eu bod yn Fwdhaidd, Hindŵaidd, Iddewig, Mwslimaidd a Sikh.

Nid oes data ystadegol ar gael i'r cyhoedd ar y nifer wirioneddol o bobl yn Ne Cymru sy'n nodi eu bod yn drawsrywiol, sy'n cynnwys pobl drawsryweddol a thrawswisgwyr, gan na chaiff gwybodaeth ei chasglu ar hyn o bryd drwy'r Cyfrifiad nac unrhyw gyfrif arall o'r boblogaeth. Fodd bynnag, mae Heddlu De Cymru yn gweithio'n agos gyda chyrff sy'n

¹ Data Cyfrifiad 2011

² Data Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch 2011/12

³ Mae'r term **economaidd weithgar** yn cyfeirio at bobl 16-74 oed sy'n gweithio neu sydd ar gael i weithio.

cynrychioli pobl drawsrywiol, yn cynnwys Cymdeithas Trawsrywiol Genedlaethol yr Heddlu.

Gan nad yw data Cyfrifiad 2011 yn gofyn i drigolion nodi eu cyfeiriadedd rhywiol, ni cheir data clir ar nifer y bobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol yn y DU. Fodd bynnag, mae Stonewall yn amcangyfrif bod 6% o'r boblogaeth yn hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol.

B. Ein Hamcanion Cydraddoldeb 2015-2018

Mae'r chwe Amcan Cydraddoldeb yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar y Cyd yn amlinellu'r meysydd allweddol y mae angen i ni roi sylw iddynt er mwyn cyflawni ein nodau o dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol. Cawsant eu llunio mewn ymgynghoriad â sefydliadau cynrychioliadol.

Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gennym yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae **Adran 2** o'r adroddiad yn cynnwys data ategol, a all fod yn ddefnyddiol.

Amcan 1 - (Trosedd Casineb)

Byddwn yn gweithio i ddeall profiad dioddefwyr o droseddau casineb ac ymgysylltu â'r rhai sy'n llai tebygol o roi gwybod am droseddau o'r fath er mwyn nodi rhwystrau a'u dileu. Bydd hyn yn sicrhau boddhad dioddefwyr ac yn helpu i leihau erledigaeth sy'n digwydd dro ar ôl tro. Gan weithio gyda'n partneriaid, byddwn yn nodi achosion risg uchel o aflonyddu sy'n gysylltiedig â chasineb ac yn annog ymyrraeth gadarnhaol a chynnar drwy broses amlasiantaeth.

Diweddariad ar Gynnydd:

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi datblygu'r ffordd rydym yn cyfathrebu â'r cyhoedd mewn perthynas â rhoi gwybod am droseddau casineb. Rydym wedi cydweithio â'r heddluoedd eraill yng Nghymru i sefydlu logo a deunyddiau ledled Cymru ar gyfer rhoi gwybod am droseddau casineb. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i gymunedau nodi gwybodaeth am droseddau casineb ledled Cymru a sicrhau dealltwriaeth well o'r opsiynau ar gyfer rhoi gwybod (i'r heddlu ac asiantaethau trydydd sector). Er mwyn hyrwyddo opsiynau ar gyfer rhoi gwybod am droseddau, gwnaethom hefyd ddatblygu clip fideo yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 2015, yn amlygu'r gwasanaeth Swyddog Troseddau Casineb a ddarperir yn Ne Cymru. Rhannwyd hwn ar y cyfryngau cymdeithasol a gellir ei ddefnyddio yn y dyfodol.

Mae ein Swyddogion Troseddau Casineb wedi ymgysylltu'n barhaus â chymunedau yn ystod y flwyddyn er mwyn annog dealltwriaeth o droseddau casineb ac annog pobl i roi gwybod amdanynt. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu er mwyn hyrwyddo'r negeseuon hyn ac rydym wedi gweithio gyda grwpiau cymunedol penodol i wrando ar ffyrdd yr hoffent roi gwybod am drosedd, gan sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau i'w bodloni.

Rhwng mis Ebrill 2015 a mis Ebrill 2016, cynyddodd nifer y bobl a roddodd wybod am ddigwyddiadau casineb a throseddau casineb o gymharu â'r un cyfnod yn 2014-15. Mae hyn yn dangos yn gadarnhaol ein bod wedi llwyddo i annog pobl i roi gwybod am droseddau.

Rydym wedi parhau i hyfforddi ein swyddogion ar faterion yn ymwneud â throseddau casineb yn ystod y flwyddyn. Mae ymyrryd yn gynnar wrth ymateb i droseddau casineb yn hollbwysig i sicrhau bod y rhai sy'n cyflawni troseddau o'r fath yn cael eu nodi ac yr ymdrinnir â hwy a bod dioddefwyr yn cael cymorth priodol. Felly, mae pwysleisio pwysigrwydd nodi'r agwedd casineb ar ddigwyddiad a'r effaith y mae hyn yn ei chael nid yn unig ar yr unigolyn a'i deulu ond ar y gymuned ehangach, a all arwain at chwalu cydlyniant cymunedol, wedi bod yn elfen allweddol o'r hyfforddiant.

O ran ein hymrwymiad i ddatblygu ymateb amlasiantaeth i ddioddefwyr troseddau casineb risg uchel, rydym yn gweithredu paneli ym mhob un o ardaloedd yr heddlu. Mae'r paneli hyn yn dwyn yr heddlu a phartneriaid ynghyd i nodi achosion risg uchel ac achosion lle gall y dioddefwyr fod yn arbennig o agored i niwed. Yn ddiweddar, buom yn cydweithio â'r tri heddlu arall yng Nghymru i sefydlu cysyniad 'Ymateb Amlasiantaeth' a fydd yn annog gwell cysondeb i ddioddefwyr ym mhob heddlu. Caiff yr ymateb hwn ei ddatblygu a'i gyfathrebu ar draws Heddlu De Cymru yn ystod 2016/17, gyda'r nod o roi cymorth gwell i ddioddefwyr ac annog mwy o ymgysylltiad â'n partneriaid o ran atal troseddau casineb a mynd i'r afael â hwy.

Amcan 2 - (Stopio a Chwilio)

Byddwn yn datblygu ein dull o stopio a chwilio er mwyn sicrhau y caiff y pwerau eu defnyddio'n deg ac, yn benodol, y caiff anghymesuredd ethnig ei herio'n barhaus a/neu ei leihau.

Diweddariad ar Gynnydd:

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ynghylch stopio a chwilio, yn enwedig â chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ifanc. Mae'r rhain wedi rhoi cyfle i Heddlu De Cymru wrando ar bryderon cymunedau a hysbysu ein cymunedau am brosesau stopio a chwilio a'u hawliau yn ystod chwiliad. Mae aelodau o gymunedau hefyd wedi cymryd rhan yn ein cynllun 'Patrol Along' newydd. Mae hwn yn rhoi cyfle i'r cyhoedd batrolio gyda swyddogion a gweld yn uniongyrchol sut mae pwerau stopio a chwilio yr heddlu yn cael eu gweithredu ar y stryd. Bu hyn yn bwysig er mwyn cyflwyno mwy o dryloywder a chyfranogiad cymunedol yn y defnydd o'r pwerau hyn.

Yn 2016, cyflwynodd tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu broses hapsamplu stopio a chwilio. Mae hyn yn sicrhau y gellir cynnal ymarferion craffu annibynnol, rheolaidd ar sampl o ffurflenni stopio a chwilio o bob rhan o'r heddlu er mwyn sicrhau bod y pwerau wedi cael eu defnyddio'n deg ac yn effeithiol a bod sail resymol dros chwilio wedi'i nodi. Mae'r broses hefyd yn sicrhau y gellir monitro cyfran o ffurflenni stopio a chwilio sy'n gysylltiedig â phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig am unrhyw anghymesuredd posibl neu resymau annheg dros chwilio. Caiff y broses hon ei chynnal bob pedwar mis er mwyn annog camau annibynnol parhaus i fonitro ein prosesau stopio a chwilio.

Yn ogystal â'r broses hapsamplu, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ar y cyd â'r heddlu, hefyd wedi sefydlu Grŵp Cyfranogiad Cymunedol newydd yn cynnwys aelodau o'r gymuned. Mae'r grŵp hwn yn cyflawni nifer o rolau, ac un ohonynt yw cynorthwyo â hapsamplu stopio a chwilio a monitro unrhyw gwynion o ran stopio a chwilio.

Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd wedi gweithio er mwyn sicrhau bod y wybodaeth am stopio a chwilio ar ein gwefan yn fwy hygyrch ac rydym yn parhau i ddatblygu ffyrdd y gallwn gyfathrebu'n well â'n cymunedau amrywiol am eu hawliau stopio a chwilio.

Rhwng mis Ebrill 2015 a mis Ebrill 2016, cynhaliwyd 7,188 o brosesau stopio a chwilio ledled ardal yr heddlu, ac roedd 5% o'r rhain yn ymwneud â phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn yn cymharu â phoblogaeth o 6.7% o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn ein hardal heddlu. Rydym yn parhau i herio unrhyw anghymesuredd ethnig yn ein data stopio a chwilio ac ymchwilio iddo.

Amcan 3 - (Hygyrchedd)

Byddwn yn ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd gyfathrebu â'r heddlu, yn arbennig y rhai ag anghenion mynediad penodol, pobl â nam corfforol neu nam ar y synhwyrâu a phobl ag anghenion llythrennedd neu iaith neu anghenion diwylliannol, gan gynnwys plant.

Diweddariad ar Gynnydd:

Sefydlwyd gweithgor Hygyrchedd er mwyn datblygu'r amcan hwn ac mae hyn yn dwyn sawl adran wahanol yn Heddlu De Cymru ynghyd i rannu cyfrifoldebau. Ymysg y trafodaethau grŵp a'r camau gweithredu yn ystod y flwyddyn roedd ystyried yr angen i ddatblygu deunyddiau cyfathrebu a mentrau ar gyfer pobl ifanc, yr angen i ddatblygu ein hopsiynau cyfathrebu ar gyfer pobl F/fyddar ac ystyried hyrwyddo ein menter 'Cadw'n Ddiogel Cymru' ymhellach.

Mae ein Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus wedi trefnu nifer o ymweliadau ag ysgolion yn ein hardal lle y siaradwyd â phlant Byddar ynghylch eu hanghenion cyswllt. Rydym wrthi'n gweithredu ar yr ymgysylltiad hwn ac yn parhau i weithio tuag at ddatblygu ein hopsiynau o ran cyfathrebu a darparu gwybodaeth i bobl Fyddar.

Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd wedi ystyried gwaith ymchwil a data presennol a fydd yn ein helpu i ddatblygu ein gwaith mewn perthynas â'r amcan hwn, ac rydym wedi nodi bylchau yn rhywfaint o'n dealltwriaeth. Mae adroddiad rheoli perfformiad cychwynnol wedi nodi'r gwahaniaeth rhwng boddhad ar gyfer 'pa mor hawdd ydyw i gysylltu' â'n heddlu rhwng pobl wyn a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hadolygu ac rydym yn awyddus i ddatblygu ffyrdd o ymchwilio ymhellach i hyn a gweithredu ar unrhyw fylchau hysbys. Yn ystod 2016/17, byddwn hefyd yn ystyried cynnal arolwg o bobl ifanc mewn ysgolion er mwyn gofyn sut y byddent yn dewis cyfathrebu â'r heddlu a ph'un a fyddent yn teimlo'n hyderus yn rhoi gwybod am droseddau sy'n effeithio arnynt.

Mae ein cynllun 'Cadw'n Ddiogel Cymru' wedi cael ei hyrwyddo yn ystod y flwyddyn. Mae'r cynllun hwn yn galluogi pobl anabl ag anghenion cyfathrebu i gofrestru â Heddlu De Cymru gan roi gwybod i ni am eu hanghenion cyfathrebu. Mae hyn yn sicrhau, pan fyddwn yn cael unrhyw gysylltiad â nhw, bod swyddogion a staff y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwybod beth yw'r ffordd orau o ymateb a chynnig cymorth priodol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi rhif penodol i'r sawl sydd wedi'i gofrestru ei ddefnyddio i'n ffonio. Mae'r cynllun yn llwyddiant mawr, gyda mwy na 750 o bobl wedi'u cofrestru ar hyn o bryd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu'r cysylltiadau a'r sefyllfaoedd sy'n ailgodi amlaf, a chaiff hyn ei fwydo'n ôl i'r ardaloedd plismona perthnasol er mwyn amlygu unrhyw bryderon o ran pobl sy'n agored i niwed.

Yn 2016, rydym hefyd wedi bod yn gweithio i ddefnyddio cynllun Cadw'n Ddiogel Cymru ar gyfer cyn-filwyr a rhoi cyhoeddusrwydd gwell i'r cynllun a'i dargedu at y sawl sydd â chyflyrau iechyd meddwl. Rydym yn bwriadu sicrhau bod adnoddau ychwanegol ar gael at y diben hwn yn ystod 2016/17. Cafodd y cynllun ei hyrwyddo'n llwyddiannus hefyd mewn partneriaeth â Mencap mewn ysgolion yn ein hardal. Mae Mencap wedi penodi eiriolwr defnyddwyr gwasanaethau i gydweithio ag ysgolion er mwyn eu hysbysu am y cynllun o safbwynt rhywun ag awtistiaeth a sut y gall y cynllun fod o gymorth.

Amcan 4 - (Anghenion Amrywiol yn y Ddalfa)

Byddwn yn asesu anghenion pobl sy'n agored i niwed a'r rhai ag anghenion penodol sydd yn nalfa'r heddlu ac yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r anghenion hynny a nodir e.e. anghenion menywod, plant, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a phobl â chyflyrau iechyd meddwl neu anableddau corfforol neu synhwyaidd neu anableddau dysgu.

Diweddariad ar Gynnydd:

Rydym yn gwneud cynnydd cadarnhaol ar yr amcan hwn ac wedi gweld nifer o ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae ffocws parhaus ynghylch yr agweddau amrywiol ar blant yn y ddalfa, yn enwedig y rhai ar remánd yn nalfa'r heddlu. Rydym wedi cymryd camau sylweddol o ran sicrhau mai dim ond pan fydd yn hollol angenrheidiol y caiff pobl ifanc eu cadw yng nghelloedd yr heddlu dros nos, a cheir tuedd gynyddol glir i'w trosglwyddo i lety awdurdod lleol.

Rydym bellach wedi cynnwys system fonitro yn ein prosesau er mwyn monitro cydymffurfiaeth pan fydd pobl ifanc yn y ddalfa, ac mae gwasanaethau'r ddalfa yn craffu ar holl gofnodion y ddalfa ar gyfer pobl ifanc ar remánd. Rhoddir adborth ar hyn i Lywodraeth Cymru a phob awdurdod lleol. Mae cyfarfodydd yn mynd rhagddynt â'n partneriaid awdurdod lleol, yn cynnwys gwaith monitro mwy ymwithiol o'r Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag argaeledd gwelyau o bob math. Mae'r broses uwchgyfeirio rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol bellach ar waith ac mae wedi cael ei defnyddio'n llwyddiannus ar sawl achlysur. Darperir hyfforddiant hefyd i awdurdodau lleol o ran eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol.

Yn yr un modd, rydym wedi gwneud cynnydd o ran iechyd meddwl, gyda phwyslais gwirioneddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar weithio er mwyn sicrhau mai dim ond pan fetho popeth arall y caiff y sawl a gedwir o dan Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl eu rhoi yn nalfa'r heddlu fel lle diogel. Buom yn gweithio gyda'n partneriaid ac rydym wedi parhau i gomisiynu gwaith, a ariennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau, i ystyried yr opsiynau sydd ar gael er mwyn sicrhau y gellir mynd â phobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl yn ddiogel ac yn briodol i fannau diogel amgen.

Rydym hefyd wedi cyflwyno codau y gellir eu chwilio ar ein systemau er mwyn nodi pan fydd unigolyn wedi cael asesiad iechyd meddwl llawn yn y ddalfa. Mae hyn yn golygu y gellir dadansoddi'r amser a dreuliwyd yn y ddalfa yn aros am asesiad a byddwn yn monitro hyn dros amser.

Mae'r Samariaid bellach yn rhoi cymorth i bobl a gedwir yn y ddalfa ym Merthyr Tudful. Gall y sawl a gedwir siarad â'r Samariaid ar y ffôn pan fyddant yn y gell, neu, os bydd angen, bydd y Samariaid yn cysylltu â'r unigolyn pan gaiff ei ryddhau. Rydym hefyd wrthi'n archwilio'r posibilrwydd y gallai gwirfoddolwyr y Samariaid ymweld â phobl a gedwir tra byddant yn y celloedd. Byddai hyn yn ychwanegol at Gynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau sy'n cynnal hapwiriadau dirybudd ar bobl yn y ddalfa er mwyn monitro eu lles ar unrhyw adeg.

Mae'r prosiect Braenaru i Fenywod yn darparu gwasanaethau i fenywod o fewn y System Cyfiawnder Troseddol. Mae amrywiaeth eang o asiantaethau partner yn cydweithio er mwyn ymyrryd i ddiwallu anghenion menywod unigol a lleihau cyfraddau aildroseddu. Mae Cynllun Dargyfeirio'r prosiect Braenaru i Fenywod yn rhoi cyfle i rai menywod sydd wedi cael eu harestio osgoi tâl, rhybudd, a hyd yn oed gofnod troseddol, drwy ymgysylltu â

chymorth gan y prosiect Braenaru i Fenywod. Dechreuodd y Cynllun Dargyfeirio ar ddiwedd mis Gorffennaf 2014 yng Nghaerdydd ac mae bellach wedi'i gyflwyno yn ardal ogleddol ein heddlu (Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf).

Rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2016, gwnaethom hefyd gynnal arolwg ymysg yr holl fenywod yn nalfa'r heddlu. Canfu canfyddiadau'r arolwg fod 62% o'r menywod yn fodlon iawn ar y driniaeth a gawsant yn y ddalfa a dim ond 7% oedd yn 'anfodlon iawn'. Byddwn yn parhau i ddadansoddi canlyniadau eraill o'r arolwg cyn datblygu'r dull gweithredu i archwilio materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl ac anabledd yn y ddalfa.

Amcan 5 - (Trais yn erbyn Menywod a Merched)

Gan weithio gyda'n partneriaid ein nod yw cynyddu nifer yr achosion o drais o unrhyw fath yn erbyn menywod a merched y rhoddir gwybod amdanynt, gan gynnwys cam-drin domestig, Trais ar Sail Anrhydedd ac Anffurfio Organau Cenhedlu Menywodod a byddwn yn cefnogi mentrau i'w nodi'n gynnar ac ymyrryd.

Diweddariad ar Gynnydd:

Mae 'Cynllun ar gyfer Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched' Heddlu De Cymru yn parhau i fod yn ffordd allweddol o gyflawni ein hamcanion yn erbyn yr amcan cydraddoldeb hwn ac rydym yn gweld canlyniadau cadarnhaol o ran cynnydd yn nifer y troseddau y rhoddir gwybod amdanynt.

Rydym wedi bod yn awyddus i hyrwyddo pwysigrwydd yr amcan cydraddoldeb hwn yn allanol ac yn fewnol. Mae'r heddlu wedi cael 'achrediad Rhuban Gwyn' ac wedi penodi 24 o 'Hyrwyddwyr Rhuban Gwyn' Gwrywaidd yn yr heddlu sy'n cynorthwyo i ymgyrchu dros annog dynion i addo i beidio byth â chyflawni, caniatáu, nac aros yn dawel am drais gan ddynion yn erbyn menywod ar bob ffurf. Cynhelir digwyddiadau'n rheolaidd i gefnogi'r hyrwyddwyr hyn.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff iechyd er mwyn annog pobl o'r sector iechyd i roi gwybod am gam-drin domestig. Nodwyd yn gyson bod gweithio â'r sector iechyd yn allweddol er mwyn gallu nodi dioddefwyr yn gynnar. Un enghraifft o'r gwaith cadarnhaol a wneir mewn perthynas ag iechyd yw prosiect IRIS a ariennir gan y sector iechyd a'r Comisiynydd mewn dwy ardal o'r heddlu. Mae IRIS (Nodi ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch) yn rhaglen hyfforddi ac atgyfeirio cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n cael ei chynnal mewn meddygfeydd meddygon teulu. Cafodd ei lansio yng Nghwm Taf yn dilyn llwyddiant cynllun peilot yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r rhaglen yn hyfforddi meddygon teulu a staff practisau ar nodi cam-drin domestig ac yn darparu eiriolwr i weithio â dioddefwyr a gaiff eu hatgyfeirio. Mae'r rhaglen yn helpu i gysylltu unigolion sy'n agored i niwed â'r gwasanaethau a'r cymorth cywir cyn gynted â phosibl.

Yn y ddwy ardal IRIS, mae nifer yr atgyfeiriadau cam-drin domestig gan y meddygfeydd wedi cynyddu'n sylweddol, gyda thua hanner y dioddefwyr yn trafod y ffaith eu bod yn cael eu cam-drin am y tro cyntaf. Mae hyn yn dangos effeithiolrwydd y rhaglen a'r ffyrdd y mae gan ddioddefwyr well siawns o gael eu cefnogi'n gynnar.

Rydym hefyd wedi datblygu Llwybr Gofal Dioddefwr, a baratowyd i'w lansio ac a fydd yn golygu y caiff pob dioddefwr cam-drin domestig yn cael ei atgyfeirio at 'Linell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan' Cymorth i Ferched Cymru. Cânt gynnig cymorth cynnar

a chânt eu cysylltu â gwasanaethau cymorth lleol er mwyn gwella'r cyfleoedd ar gyfer ymyrryd yn gynnar.

Mae Heddlu De Cymru hefyd yn gweithio â darparwyr tai cymdeithasol er mwyn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i nodi ble y gall achosion o gam-drin domestig godi, gan eu hannog i ymateb yn briodol drwy nodi ac ymyrryd yn gynharach.

Rydym hefyd wedi datblygu ein hyfforddiant i swyddogion yr heddlu ac wedi rhoi hyfforddiant allweddol ym maes Trais yn erbyn Menywod a Merched. Mae pob Cwnstabl Heddlu a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu newydd, yn ogystal â sawl swyddog ac aelod o staff presennol, yn cael hyfforddiant yn y maes hwn er mwyn deall y materion sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, yr anawsterau sy'n wynebu dioddefwyr a'r ffactorau sy'n golygu eu bod yn agored i niwed, a'r seicoleg mewn perthynas â cham-drin a thrawma rhywiol. Rydym hefyd wedi cynnwys ymwybyddiaeth o gam-drin ar sail 'anrhydedd', priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu Menywodod yn y rhaglen hyfforddi.

Rydym yn parhau i weithio gyda'n cymunedau i godi ymwybyddiaeth o'r angen i roi gwybod am droseddau. Ym mis Mehefin 2016, cynhaliodd Heddlu De Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau sioe deithiol a gyflwynwyd gan yr elusen, Karma Nirvana. Roedd y 'Diwrnod Grymuso Menywod' yn ddigwyddiad am ddim gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o faterion 'anrhydedd' ymysg grwpiau proffesiynol a chymunedol. Ei nod oedd eu galluogi i helpu i rymuso menywod, yn enwedig y rhai sy'n wynebu mwy o rwystrau oherwydd eu profiad o systemau anrhydedd, i roi gwybod am droseddau a cheisio help.

Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi gweld canlyniadau cadarnhaol yn y maes hwn ac yn gyffredinol rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer sy'n rhoi gwybod am gam-drin domestig, trais rhywiol, digwyddiadau ar sail 'anrhydedd' a phryderon ynghylch anffurfio organau cenhedlu Menywodod. Fodd bynnag, yn unol â thueddiadau cenedlaethol, rydym wedi gweld gostyngiad yn y nifer sy'n rhoi gwybod am briodasau dan orfod.

Amcan 6 - Gweithlu Cynrychioliadol

Byddwn yn gweithio i gynyddu amrywiaeth gweithlu Heddlu De Cymru gan ganolbwyntio'n benodol ar hil a rhyw er mwyn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir gennym yn well.

Diweddariad ar Gynnydd:

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio'n dda i sefydlu'r ffyrdd rydym yn bwriadu cyflawni'r amcan hwn ac rydym eisoes yn gweld canlyniadau cadarnhaol.

Yn ystod gwanwyn 2015, gwnaethom lansio ein rhaglen er mwyn annog cyfraddau recriwtio, datblygu a chadw pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn Heddlu De Cymru. Gwnaed hyn yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o'n prosesau recriwtio ac ymgysylltu allanol presennol mewn perthynas â chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Roedd yr adolygiad hefyd wedi galluogi ein cyflogeion o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i roi eu barn ar sut y gallem eu cefnogi'n well i ddatblygu a gwneud cynnydd. Ar ôl lansio'r strategaeth, gwnaethom sefydlu ein tîm Gweithlu Cynrychioliadol, sy'n cynnwys tri swyddog heddlu. Mae'r tîm yn ymgysylltu ag aelodau o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig ac yn eu cefnogi er mwyn eu hannog i wneud cais i weithio gyda ni.

Fel rhan o'r rhaglen, rydym hefyd wedi sefydlu system Hyrwyddwyr Datblygiad, sy'n galluogi pob ymgeisydd o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig sydd am wneud cais am swyddi gwag gyda ni, i gael cymorth mentora personol. Mae'r fenter gweithredu cadarnhaol hon yn galluogi pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i gael gwell cymorth a mynediad i wybodaeth nag o'r blaen mewn perthynas â systemau recriwtio'r heddlu.

Mae'r rhaglen hefyd wedi cyflwyno mentrau newydd eraill fel cwrs 'Tystysgrif mewn Gwybodaeth am Blismona' a ariennir gan fwrsari ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n gwneud cais, lansio sianel 'YouTube' wedi'i thargedu a phroses ymgysylltu a gynlluniwyd â grwpiau cymunedol a gwirfoddol.

Mae'r canlyniadau wedi dechrau ymddangos, dim ond blwyddyn i mewn i'r rhaglen. Yn flaenorol, roedd ymgeiswyr o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am tua 2 neu 3% o'n holl ymgeiswyr ar gyfer swyddogion yr heddlu, ond yn ein hymgyrch ddiweddaraf i recriwtio Cwnstablaid Heddlu (dechrau 2016), roedd 11% o'n hymgeiswyr o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Hefyd, yn ystod ein hymgyrch i recriwtio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn 2015, roedd 7.7% o'r ymgeiswyr o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn yn uwch na'r boblogaeth o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn ardal Heddlu De Cymru ac nid ydym erioed wedi gweld canlyniadau mor gadarnhaol.

Gwelwyd llwyddiannau hefyd o ran ein nod i gynyddu canran y menywod yn Heddlu De Cymru dros y flwyddyn flaenorol. Yn 2015, comisiynodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl adolygiad o gyfraddau recriwtio, datblygu a chadw menywod yn Heddlu De Cymru.

Mae'r adolygiad bellach wedi arwain at ddatblygu 'Cynllun Cyflawni ar gyfer Recriwtio, Datblygu a Chadw Menywod' er mwyn annog menywod i ymuno â ni ac, yn bwysig, bydd yn arwain at newidiadau cadarnhaol i brosesau a diwylliant mewnol er mwyn rhoi'r cymorth gorau posibl i fenywod, yn enwedig yn ystod beichiogrwydd, mamolaeth, blynyddoedd gofal plant a'r menopos. Gobeithio y bydd y canlyniadau cyffredinol yn arwain at ganrannau uwch o fenywod yn yr heddlu a chynrychiolaeth well ar y rhengoedd canol ac uwch. Caiff y Cynllun cyflawni ei lansio'n fewnol yn ystod haf 2016.

Mae cynlluniau ar waith yn barhaus er mwyn ystyried sut y gellir annog pobl â nodweddion gwarchodedig eraill i ymuno â ni a chaiff y gynrychiolaeth gyffredinol ei monitro gan ein Bwrdd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol, gyda chymorth cadarnhaol gan ein rhwydweithiau staff.

Data Cydraddoldeb

Defnyddir data cydraddoldeb i lywio blaenoriaethau ar gyfer Heddlu De Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru.

Mae'r wybodaeth ar y tudalennau canlynol yn cynnwys data a gyflwynir mewn blynyddoedd ariannol llawn lle y bo'n bosibl. Cafodd y wybodaeth ei diweddarau ym mis Mehefin 2016 er mwyn cynnwys blwyddyn lawn o ddata o'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016.

1. Dengys llawer o dablau ddata yn ôl Unedau Rheoli Sylfaenol. Mae Heddlu De Cymru wedi'i rannu'n bedair Ardal neu Uned Reoli Sylfaenol. Mae'r rhain yn ffiniau daearyddol y rhennir dyletswyddau plismona gweithredol yn unol â hwy. Y pedair ardal yw:
 - Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog (Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg)
 - Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol (Caerdydd)
 - Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol (Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful)
 - Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol (Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe)
2. Mae gwybodaeth am y gweithlu fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Dangosir y wybodaeth hon ar gyfer pedwar grŵp o staff, sef
 - Swyddogion yr Heddlu
 - Staff yr Heddlu (cyflogeion nad ydynt yn swyddogion yr heddlu nac yn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu)
 - Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs)
 - Cwnstablaid Gwirfoddol (aelodau o'r cyhoedd sy'n wirfoddolwyr sy'n gwisgo lifrai ac yn arfer pwerau llawn yr heddlu pan fyddant ar ddyletswydd).
3. Hyd at ddiwedd 2013-14, pan fyddai galwad yn dod gan y cyhoedd yn rhoi gwybod am ddigwyddiad, ni fyddai'n cael ei ddsbarthu'n drosedd nes i swyddog ymchwilio i'r mater a chadarnhau ei bod yn drosedd. Ers 2014-15, yn Ne Cymru, mae troseddau wedi'u cofnodi fel y'u disgrifir gan yr aelod o'r cyhoedd wrth roi gwybod amdanynt. Mae hyn yn sicrhau bod y drosedd yn cael ei dosbarthu ar unwaith sy'n golygu bod modd ymateb iddi ar unwaith. Mae hyn hefyd yn golygu y bydd nifer y digwyddiadau a gofnodir yn droseddau yn nes at y lefelau gwirioneddol o droseddau a gyflawnir. Y prif reswm y bydd diffyg o hyd o gymharu â'r lefelau troseddau gwirioneddol yw nad yw dioddefwyr bob amser yn rhoi gwybod am droseddau. Mae Arolygiaethau Ei Mawrhydi yn nodi bod y dull hwn o weithredu yn "arfer da" ac yn bodloni gofynion y Safon Cofnodi Troseddau Genedlaethol.
4. Lle y dangosir newidiadau canrannol, mae'r rhain yn cymharu hen ddata â data newydd. Mae newid canrannol yn dangos y newid mewn gwerth dros amser ac fe'i cyfrifir drwy ddyddynnu'r hen werth o'r gwerth newydd a rhannu â'r hen werth. Yn yr adroddiad hwn, mae newidiadau canrannol wedi'u defnyddio lle y bo'n briodol i ddangos newidiadau dros amser. Fodd bynnag, nid yw newidiadau canrannol wedi'u dangos lle mae'r niferoedd yn fach (fel arfer lle mae'r nifer yn is na 100) am y gallant fod yn gamarweiniol.

5. Daw'r data poblogaeth a ddefnyddir o Gyfrifiad 2011.
6. Hon yw'r bumed flwyddyn y mae data Monitro Cydraddoldeb wedi'u cyhoeddi i'r lefel hon o fanylder. Mewn nifer o feysydd, bydd y gwaith o gasglu data a sicrhau bod y data hynny yn gyflawn yn parhau i gael ei ddatblygu a bydd y wybodaeth yn parhau i ddatblygu dros y misoedd a'r blynnyddoedd i ddod.
7. Rydym yn cydnabod bod y gwaith o gasglu a chyflwyno ein data yn mynd rhagddo. Ar gyfer rhai meysydd o'n gwaith, nid oes data ar gael yn hawdd a, lle maent ar gael, efallai nad yw'n bosibl eu casglu ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i nodi bylchau a mynd i'r afael â hwy dros amser.

Comisiynydd y Gymraeg

Cyhoeddir gwybodaeth fonitro mewn perthynas â'r iaith Gymraeg ar wahân i'r Data Cydraddoldeb hyn, ac mae ar gael yn www.south-wales.police.uk.

Mae'r adran hon yn cynnwys amrywiaeth o ddata sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb er mwyn cefnogi ein hamcanion cydraddoldeb, yn ogystal â data cydraddoldeb ychwanegol sy'n helpu i ddangos sut rydym yn gweithio tuag at nodau'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol.

1. Trosedd Casineb

Dengys y tablau canlynol y bum nodwedd warchodedig o ran digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chasineb a throseddau casineb a gaiff eu cofnodi a'u monitro gan Heddlu De Cymru.

Digwyddiadau sy'n Gysylltiedig â Chasineb a Throseddau Casineb

Blwyddyn	Digwyddiadau			Troseddau		
	2014-15	2015-16	Newid %	2014-15	2015-16	Newid %
Hil	1,565	1,683	7.5%	1,102	1,232	11.8%
Cyfeiriadedd Rhywiol	371	342	-7.8%	240	235	-2.1%
Anabledd	284	347	22.2%	137	174	27.0%
Crefydd a Chred	98	115	17.3%	66	78	18.2%
Trawsrywedd	49	44	**	25	24	**
Casineb*	2,271	2,422	6.6%	1,501	1,673	11.5%

*Ni fydd cyfanswm y digwyddiadau/troseddau casineb yn cyfateb i swm yr holl ddigwyddiadau neu droseddau yn ôl nodweddion gwarchodedig oherwydd gall un digwyddiad casineb ymwneud ag un neu fwy o nodweddion gwarchodedig.

** Nid oes canrannau wedi'u rhoi lle mae niferoedd bach yn golygu eu bod yn llai ystyrlon.

Digwyddiadau sy'n Gysylltiedig â Hil

Blwyddyn	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
2013-14	303	664	160	403	1,530
2014-15	352	693	145	375	1,565
2015-16	304	773	194	412	1,683
Newid % 2014-15 i 2015-16	-13.6%	11.5%	33.8%	9.9%	7.5%

Digwyddiadau sy'n Gysylltiedig â Chyfeiriadedd Rhywiol

Blwyddyn	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
2013-14	74	97	39	91	290
2014-15	103	132	51	85	371
2015-16	91	141	38	72	342
Newid % 2014-15 i 2015-16	**	**	**	**	-7.8%

** Nid oes canrannau wedi'u rhoi lle mae niferoedd bach yn golygu eu bod yn llai ystyrlon.

Digwyddiadau sy'n Gysylltiedig ag Anabledd

Blwyddyn	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
2013-14	63	43	42	113	260
2014-15	115	75	38	56	284
2015-16	144	76	59	68	347
Newid % 2014-15 i 2015-16	**	**	**	**	22.2%

****** Nid oes canrannau wedi'u rhoi lle mae niferoedd bach yn golygu eu bod yn llai ystyrlon

Digwyddiadau sy'n Gysylltiedig â Chrefydd a Chred

Blwyddyn	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
2013-14	5	22	2	18	46
2014-15	23	42	10	23	98
2015-16	34	44	15	22	115
Newid % 2014-15 i 2015-16	**	**	**	**	17.3%*

***Dylid dehongli'r newid canrannol hwn yn ofalus am fod y niferoedd yn gymharol fach**

****** Nid oes canrannau wedi'u rhoi lle mae niferoedd bach yn golygu eu bod yn llai ystyrlon

Digwyddiadau sy'n Gysylltiedig â Thrawsrywedd

Blwyddyn	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
2013-14	9	11	7	9	35
2014-15	10	19	8	12	49
2015-16	1	11	17	15	44
Newid % 2014-15 i 2015-16	**	**	**	**	**


****** Nid oes canrannau wedi'u rhoi lle mae niferoedd bach yn golygu eu bod yn llai ystyrlon


Roedd y digwyddiadau canlynol sy'n gysylltiedig â chasineb yn bodloni diffiniad Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref o Drosedd

Grŵp Trosedd	2014-15	2015-16	Newid %
Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus	877	980	12%
Trais heb anaf	244	350	43%
Trais gydag anaf	174	156	-10%
Difrod troseddol	150	122	-19%
Pob trosedd ddwyn arall	12	20	**
Troseddau amrywiol yn erbyn cymdeithas	15	12	**
Lladrad	4	8	**
Dwyn o siopau	4	5	**
Bwrglera domestig	6	4	**
Troseddau cerbydau	4	3	**
Dwyn oddi wrth berson	1	3	**
Tanau bwriadol	3	3	**
Troseddau rhywiol difrifol eraill	2	2	**
Troseddau rhywiol eraill	1	2	**
Trais rywiol	1	1	**
Bwrglera mewn eiddo annomestig	2	1	**
Troseddau meddiant ar arf	0	1	**
